# CYNGOR TREF DOLGELLAU

Cofnodion o Bwyllgor Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ar nos Fawrth, Mehefin 3, 2025 yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau am 7.00 o'r gloch.

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Bob Gunton (Maer)
Y Cynghorwyr John Cadwaladr, Jo Checkley, Peter Jones, Ray Peters, Ywain Myfyr, Dyfrig Siencyn, Branwen Rhys Dafydd, Jessica John.
Mr Rhys Williams – Clerc

**C.21.2025-2026 SESIWN CYHOEDDUS**
Dim i'w adrodd

**C.22.2025-2026 YMDDIHEURIADAU**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Y Cynghorwyr, Nia Evans, Heilyn Williams a Llinos Rowlands.

**C.23.2025-2026 DATGANIADAU O DDIDDORDEBAU PERSONOL YN DEILLIO O UNRHYW WYBODAETH YN YMWNEUD A'R CYFARFOD**
Derbyniwyd datganiad o ddiddordeb oddi wrth y Cynghorydd Jessica John parthed eitem Gohebiaeth - cais ariannol oddi wrth Cylch Meithrin Dolgellau.

**C.24.2025-2026 I DDERBYN A CHADARNHAU COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR MAI 6, 2025**
Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion uchod.

**C.25.2025-2026 MATERION YN CODI O'R COFNODION**

1.1 **MATERION A GODWYD O GOFNODION BLAENOROL**

1. **Coed Ffynnon Fair**
   **Cyflwynwyd**: Anfoneb am waith ar y safle uchod oddiwrth Cwmni 'Bois Bontnewydd'. A yw wedi ei dalu? Hefyd i gysylltu â'r contractwr RW Britland parthed yr angen i dorri mieri ar y safle o leiaf dwy waith y flwyddyn, a'r torri cyntaf i gael ei wneud cyn gynted â phosib.
   **Penderfynwyd:** Y Clerc i ymchwilio ac i ddilyn i fyny.

2. **Gofeb Barhaol - Llyn Penmaen**
   **Cyflwynwyd:** Adborth ysgrifenedig gan y Cynghorydd Nia Evans bod cais cynllunio bellach mewn lle i sefydlu'r gofeb barhaol yma.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

3. **Problemau Parcio rhwng banc HSBC a Siop Hosbis yn y Sgwâr**
   **Cyflwynwyd:** Dim cynnydd ar y mater yma ar hyn o bryd.
   Derbyn y wybodaeth. Cadw ar yr agenda.

4. **Rhaglen Ymrwymiad Cymunedol**
   **Cyflwynwyd: Diweddariad ar bwynt gweithredu o gyfarfod mis Hydref 2023 y Cyngor megis:**

**i) Trefnu ymchwiliad i sefydlu Bwrdd Arddangos penodol i'r Cyngor:**
**Cyflwynwyd:** Dyfynbris wedi ei dderbyn a chadarnhau yng nghyfarfod mis Chwefror 2025 y Cyngor. Cais am gyngor o flaen llaw cais cynllunio (os bydd angen) nawr wedi ei gyflwyno i sylw'r

Parc Cenedlaethol. Y Clerc i gysylltu gyda'r Parc i gadarnhau nad yw yn adeilad rhestredig.
Derbyn y wybodaeth. Cadw ar yr agenda.

**Materion pellach yn codi:**

ii) **Parc Sglefrolio**
Dim i'w adrodd ar y funud.
**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth.

iii) **Seti Cyhoeddus – adolygiad**
**Cyflwynwyd:** Adroddiad gan y Maer yn egluro bod 5 x set gyhoeddus bellach wedi ei sefydlu yn y mannau priodol.
**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad ac i wireddu'r man waith ail-beintio ar gyfer rhai meinciau pellach oddi amgylch y dref.

iv) **Trwydded Adloniant Cyhoeddus i'r Sgwâr**
**Cyflwynwyd:** Dim cynnydd ar y mater yma ar hyn o bryd.
**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth.

v) **Cerbyd yn y Lawnt**
Dim adroddiad pellach wrth law.
**Penderfynwyd**: Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn i gadw sylw.

vi) **Goleuadau Nadolig 2025**
**Cyflwynwyd:** Dim gwybodaeth newydd i adrodd ar hyn o bryd.
**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth gyda diolch.

**C.2025-2026.2** **Cynllun adfywio canol tref Dolgellau - Lindsey Elis ac Elen William o Gyngor Gwynedd yn bresennol**
**Cyflwynwyd**: Adroddiad gan y swyddogion uchod yn egluro bod eu huned bellach yn gyfrifol am raglen Cynllun Cymunedol y Sir, gan gynnwys cefnogaeth i raglen sefydlu Hybiau Cymunedol ar draws y Sir.

Eglurwyd y bod strwythur hybiau lleol yn medru amrywio o un ardal i'r llall gyda phwysigrwydd ar ffocysu ar beth sydd yn gweithio i'r plwyf. Mae'r Sir yn barod i gyfrannu £6,000 i gynlluniau o'r math yma eleni a hefyd yn 2026-2027. Mae posibilrwydd o gyllido swyddog datblygu i gydgordio digwyddiadau yn y Llyfrgell Rydd (yn arbennig cynllun 'Lle yn y dref') a hefyd hybu gwybodaeth digwyddiadau lleol a chyfeirio ymlaen at fudiadau cefnogol. Hyn ar sail cyflogi person hunangyflogedig. Gofynnwyd a yw'r Cyngor Tref yn barod i i ymgymryd â thrafodaethau pellach ar y mater yma?

**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth gyda diolch ac i Grŵp Datblygu Canol y Dref y Cyngor gyfarfod ar nos Fawrth Mehefin 10, 2025 yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau, i symud ymlaen ar y mater yma.

**C.26.2025-2026** **SEFYLLFA ARIANNOL**
Derbyniwyd a chadarnhawyd y sefyllfa ariannol oddi wrth y Clerc.
**Penderfynwyd:** Y Clerc i gynnwys balansau misol yn y cyfrifon o hyn ymlaen.

**C.27.2025-2026** **SESIWN RHANNU GWYBODAETH AC ADRODDIADAU**

1. **<u>Adroddiadau aelodau'r Cyngor Tref</u>**

i) **Y Cynghorydd Bob Gunton (Maer)** - rhoddwyd rhybudd y bydd cyfarfod o Is-grŵp y Llyfrgell Rydd yn cymryd lle ar Fehefin 17, 2025 am 7.00 o'r gloch yn y Llyfrgell Rydd gyda gofalwr / clerc llogi'r adeilad yn bresennol.

Nodyn i bawb o'r angen i ddefnyddio Blwch Ffôn Draddodiadol er mwyn eu gwarchod. Wedi eu defnyddio yn ogystal â'r Clerc.

Tynnwyd sylw at yr angen i'r Cyngor sefydlu amcanion strategol ar gyfer 2025-2026.
**Penderfynwyd:** Trefnu cyfarfod arbennig o'r Cyngor yn ystod mis Gorffennaf 2025 i drafod hyn.

ii) **Y Cynghorydd Ray Peters** - nodyn o sylw bod llinellau melyn dwbl ger Ivy House ddim yn cael eu gorfodi. Hefyd platiau draeniau wedi suddo ger siop 'Waterloo' - angen sylw.
**Penderfynwyd:** Gweithredu ar y materion yma.

iii) **Y Cynghorydd John Cadwaladr** - gwaith ynghlwm a chynllun 'Lle yn y Dref'. Cyfarfod o Ymddiriedolaeth Dr Daniel Williams**.** Mynychwyd hefyd ar y cyd gyda'r Cynghorydd Peter Jones. Cyfarfod lleol gyda'r Heddlu pryd derbyniwyd ystadegau o droseddau lleol. Trafodwyd hefyd, sefyllfa bresennol CCTV y dref, sydd ar hyn o bryd yn system wirfoddol leol ac nid yn gyfrifoldeb y Cyngor Tref. Nodwyd bod 3 opsiwn i symud ymlaen gyda'r fenter yma, megis:

1. Cadw gyda'r trefniadau rheolaeth bresennol.
2. Yr Heddlu i gymryd drosodd rheolaeth o'r offer presennol.
3. Yr Heddlu i ddiweddaru'r system gydag offer newydd (arian ar gael gan yr Heddlu) ac i reolaeth yr offer gael ei sefydlu yn Orsaf yr Heddlu yn Nolgellau.

**Penderfynwyd:** I gefnogi unrhyw gynllun gan yr Heddlu i wella'r strwythur presennol.

iv) **Y Cynghorydd Peter Jones** – adborth bod digwyddiad dathlu dyddiad 'VE Day' wedi bod yn llwyddiant

v) **Y Cynghorydd Jessica John** - gwaith ar y gweill i sefydlu Plac Glas ar adeilad Plas Newydd. Canolfan Deulu'r dref - nad oes arian ar gael oddiwrth y Loteri Genedlaethol. Cais am arian yn cael ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd.

vi) **Y Cynghorydd Ywain Myfyr** - wedi cyfarfod gyda swyddog Huw Thomas parthed defnydd newydd o hen Siop 'Wilkins'. Angen pwysau ar gontractwr RW Britland i dorri mieri dwywaith y flwyddyn yng Nghoed Ffynnon Fair. Wedi cyflwyno cais am grant pellach i Gyngor Gwynedd ar gyfer gwaith i wella Pafiliwn y Marian. Cyfarfod o Grŵp yr Aran a gwaith archeolegol ar safleoedd gwlân yr ardal. Oblygiadau newydd ar y gorwel i achlysuron cyhoeddus sydd gyda 800 neu mwy o gynulleidfa. Bydd angen trefniadau gwarchod yn erbyn terfysged. Mynychu cyfarfod o'r Bartneriaeth. Tynnu sylw aelodau i gyswllt y Crynwyr o Gymru yn Pennsylvania oherwydd hanes y Crynwyr yn Nolgellau, megis adeilad Bryn Mawr yn arbennig.

**C.28.2025-2026 ADRODDIADAU CYNGHORWYR GWYNEDD SIROL**

**Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**
Digwyddiad o’r angen i gau elfen o Ffordd y Gader yn ddiweddar - caead pellach i ddilyn. Cynllun yn y Gwasanaeth Addysg y Sir i sefydlu uned gwasanaeth iechyd a llesiant i athrawon a staff cefnogol er mwyn eu cefnogi yn well. Gwaith ail-adeiladu Canolfan Dolfeurig – Is-gontractwr newydd wedi ei benodi. Coleg Meirion / Dwyfor - digwyddiad ar y Marian. Rhybudd y bydd Eisteddfod yr Urdd am fynychu ardal ym Meirionnydd yn y dyfodol. Pennaeth newydd o Wasanaeth Oedolion wedi ei benodi.
**Cwestiynau** - nodwyd yr angen i sefydlu llinellau dwbl melyn ger y Siop Flodau yn y Stryd Fawr. Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn i weithredu.

**C.29.2025-2026 GOHEBIAETH**

**Cyflwynwyd:** Cais am gyfraniad ariannol oddi wrth Cylch Meithrin Dolgellau.
**Penderfynwyd:** Cyfrannu £2000 tuag at yr achos.

**C.30.2025-2026 MATERION CYNLLUNIO**

**Dim i’w adrodd - Cais Cynllunio ar gyfer gofeb Llyn Penmaen wedi ei dderbyn ond dim sylwadau gan y Cyngor oherwydd eu bod yn ymgeisydd.**